

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun Nos Fawrth 6ed Rhagfyr 2016

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Richard Ll. Jones, Idris Thomas, R. Hefin Williams, Sion Jones a Jane Pierce Croesawyd Mr. Dylan Owen, Grŵp Cynefin I'n plith.

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau. Aled Green a Euryng Roberts

2. Datgan buddiant. Dim

3. Croesawyd Mr Dylan Owen, Hwylusydd Tai Gwledig atom i drafod anghenion tai Rhiwlas yn dilyn llythyr a dderbyniwyd gan Grŵp Cynefin.

Rhoddodd Dylan fraslun o hanes y gwasanaeth a phwrpas dros ei bresennoldeb yn y cyfarfod. Yn wreiddiol, derbyniwyd llythyr lle mai trafod anghenion Tai yn Rhiwlas oedd pwrpas yr ymweliad, ond roedd hynny wedi newid, i gynnwys anghenion tai ym mhentrefi y cyngor cymuned i gyd.

Cyflwynodd Dylan holiadur a map ffiniau, ynghyd a llythyr o gefnogaeth oedd yn amlinellu pwysigrwydd yr holiaduron.

Mae cydweithrediad a chefnogaeth y cyngor i'r holiadur am angen tai yn holl bwysig cyn symyd ymlaen ymhellach. Mi fydd yr arolwg yma yn cymeryd nifer o bethau i ystyriaeth megis, rhestr aros gan y cyngor, diffyg gwaith a dim tai fforddiadwy ayyb.

Cafwyd amser i gwestiynau cyn penderfynnu cael amser ymhellach i ddarllen, a bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Ionawr, fel bo'r clerc yn gallu cysylltytu yn ôl gyda Dylan cyn diwedd Ionawr.

Diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

4. Cofnodion cyfarfod 1af Tachwedd

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion o'r cofnodion

Express Motors – Nid oes cyfarfod wedi bod rhwng cynghorwyr Rhiwlas a cwmni Express hyd yn hyn ynglyn a gwasanaeth bws yn Rhiwlas. Cawn adborth cyn gynted a bydd cyfarfod wedi cymeryd lle.

Llythyrau Diolch – Derbyniwyd 3 llythyr ychwanegol am rodd ariannol gan Clwb Pensiynwyr Penisarwaun, Clwb Bro Bethel ac Eisteddfod Bentref Bethel

Llythyr gan y cabinet Cyngor Gwynedd – Derbyniwyd llythyr a oedd wedi yrru i'r cynghorydd Sirol Elfed Williams

Par; Ffordd Dosbarth 3 Groeslon Racca i Glwt y Bont.

Gyrrwyd y llythyr yn dilyn deiseb ar ran trigolion Deiniolen a Chlwt y Bont a gylflwynwyd gan y cynghorydd Elfed Wyn Williams. Cyfeiriwyd er eu bod yn cytuno nad yw y lon mewn cyflwr delfrydol, ni allent gyfiawnhau rhoddi blaenoriaeth iddi dros ffyrdd eraill sydd angen sylw buan. Mae darn o groesfan waelod Hafod Oleu i lawr at Tai Stad Hafod yn unig am gael ei ail wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nid yw hyn yn dderbyniol. Penderfynwyd i'r clerc yrru llythyr yn ymateb i'r llythyr yn datgan mai ein disgwyliadau yw fod y lon i gyd yn cael ei ail wynebu.

6. Gohebiaeth a materion eraill

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr ynglyn a costau a trefniadau y biniau halen, ac erbyn hyn nid oes posib deallt y trefniadau, gan fod llythyr yn amlinellu rhywbeth gwahanol eto. Y clerc i gysylltu a Steffan Jones yn gofyn am gytundeb i'r trefniadau a rhestru pob bin, ynghyd a pryd y disgwylir taliadau. Talu am y gwasanaeth i gyngor Gwynedd ydym, felly ni ddylai fod newid yn nhrefn y gwasanaeth o gwbl.

Llythyr Llwybrau – Derbyniwyd llythyr yn datgan toriad yn ad daliadau llwybrau eto ynghyd a holiadur. Clerc i yrru yr holiadur yn ôl.

7. Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau yma:

LLys, Brynrefail – Codi estyniad blaen, ochor a cefn. Gosod ffenestri gromen ac ehangu cwrtil preswyl yr eiddo

Manora, Bryn Eithin, Penisarwaun – Estyniad unllawr ochor

Warws, Maes yr Haf, Bethel – Dymchwel y warws presennol a chodi 2 dy deulawr

Tyn Pwll, Bethel – Dymchwel y ty presennol a codi 2 dy deulawr

Y Bwthyn Fron Chwith – Codi estyniad cefn unllawr

Tir tu cefn I Capel Bethel – Codi 4 ty fforddiadwy, creu ffordd stad Newydd a mynedfa gerbydol newydd.

Glaswellt yn ymyl priffordd ar Ffordd Crawia, Bethel – Gosod mast telathrebu 12.5m, 3 anrena 1 lloeren a chabannau

8. Praesept a Cyllideb

Cyflwynodd y clerc yr 2ail ddrafft o'r gyllideb a sefyllfa ariannol presennol y cyngor ynghyd a rhagolwg o'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bu cryn drafodaeth am y sefyllfa sydd i ddod, a rhoddwyd barn o faint oedd praesept cynghorau eraill i gymharu a'n praesept ni.

Gan fod yr amser yn tynnu at y terfyn, penderfynwyd gohirio y mater yma a'l ddygu ymlaen i gyfarfod mis Ionawr.

9. O gwmpas y Bwrdd

Sion Jones – Oes posib gwahodd Dafydd Wyn Jones adran deithio l'r cyfarfod? Clerc i gysylltu

Penisarwaun – Angen gwybod pan maent yn trefnu y ffordd newydd o Penllyn i Nant y Garth, oes posib yn ôl yr addewid i gael llwybr beicio?

Ceffyl yn defnyddio llwybrau cyhoeddus – yn defnyddio llwybr Llwynderw I Craig y Ddinas a llwybr heibio Rhos Wian- Angen gwybod yn swyddogol os oes gan geffyl hawl i fynd ar lwybrau cyhoeddus.